

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

21 Medi 2016

Yn bresennol: Y Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, y Cynghorwyr P Harries, ST Hudson, R Kilmister a P J Morgan, Mrs M Thomas a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12:00pm – 1.15pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mr A E Sangster.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016.

4. Adroddiad am berfformiad am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2016

Croesawodd y Cadeirydd y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth a benodwyd yn ddiweddar i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor. Dywedodd fod yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016/17; roedd hyn yn dilyn trefn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a oedd â saith amcan llesiant, ac adran ychwanegol sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Dangosai'r adroddiad y perfformiad hyd yma am bedwar mis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd, ynghyd â statws Coch-Oren-Gwyrdd ar gyfer pob cam gweithredu. Roedd y cynnydd ar bob cam gweithredu wedi'i nodi yn yr adroddiad. Fodd bynnag, ar yr adeg hon o'r flwyddyn dim ond newydd ddechrau oedd mwyafrif y gweithgareddau.

Nodwyd y bu cynnydd cyffredinol yn nifer yr ymwelwyr yn safleoedd a chanolfannau'r Awdurdod o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a chynnydd yn y gwerthiant nwyddau cyffredinol, Fodd bynnag, nid oedd y gwelliant mewn perfformiad yn gyson ar draws y safleoedd. Teimlai'r Aelodau fod y graffiau a ddarparwyd o gymorth ac roeddynt yn synnu nad oedd nifer yr ymwelwyr yng Nghastell Henllys yn uwch a gofynnwyd a ellid dysgu gwersi o Gaeriu lle'r oedd y niferoedd wedi cynyddu. Atebodd y Cyfarwyddwr Darganfod a Chyflenwi fod nifer yr ymwelwyr â'r safle yn siomedig o ystyried y buddsoddiad diweddar, a gobeithiwyd y byddai hyn yn gwella yn y dyfodol.



Hefyd, bu peth trafodaeth ynglŷn â newidiadau yn y patrymau ymgysylltu ar-lein gyda gostyngiad yn yr ymweliadau â'r wefan o gymharu â'r llynedd ond cynnydd yn nifer y dilynwyr Facebook. Soniodd un Aelod fod Cyngor Sir Penfro wedi gosod cyfleusterau di-wifr yng nghanol trefi, ac roedd yn gobeithio y byddai'r Awdurdod yn gweithio gyda'r Cyngor yn ystod y gaeaf i wneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig ar gyfer cael gwybodaeth. Ychwanegodd fod y gwasanaeth di-wifr yn cael ei ddarparu am gyfnod prawf o dair blynedd, a'i bod yn bosibl na chaiff ei gadw oni wneir defnydd ohono.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am berfformiad.

5. Adolygiad o Wasanaeth Addysg Awdurdod y Parc Cenedlaethol

Ymddiheurodd Arweinydd y Tîm Darganfod fod yr adroddiad eglurhaol anghywir wedi'i ddarparu a thynnodd sylw'r Pwyllgor at yr adroddiad cywir a oedd wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod.

Eglurodd yr adroddiad y gellid rhannu gwaith yr Awdurdod gydag ysgolion yn fras i bedwar maes a rhoddwyd rhagor o fanylion am bob un o'r rhain yn adroddiad yr adolygiad. Mae'n nodi bod y gwasanaeth, ar y cyfan, yn perfformio'n dda, ac o'i gymharu â Pharciau Cenedlaethol eraill yn y DU, roedd nifer y buddiolwyr yn uchel. Mae'r gwasanaethau addysg a gynigir wedi eu hen sefydlu ac yn uchel eu parch gan ysgolion, athrawon a disgyblion, gydag ystod eang o bynciau ac yn cynnig cyfleoedd ar draws y Parc Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr. Er bod llawer o ddarparwyr yn gweithio gydag ysgolion ar draws y sir, roedd natur y gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod yn unigryw mewn rhai achosion. Er y cydnabuwyd nad oedd y Gwasanaeth Addysg yn gwneud cyfraniad enfawr tuag at incwm yr oedd yn rhesymol iach a nodwyd bod y gwasanaethau addysg awyr agored ac amgylcheddol a gynigir i ysgolion yn cael cymhorthdal yn aml.

Cytunodd yr Aelodau fod y gwaith gydag ysgolion yn bwysig ac yn cyfrannu at nifer o amcanion corfforaethol yr Awdurdod. Roeddynt hefyd yn croesawu'r fenter Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro a gyflwynwyd yn ddiweddar. Dywedodd un Aelod fod y rhaglen addysg yn cynnwys llawer o weithgareddau coetir, ac roedd yn gobeithio y gallai adfywio Penlan gael ei ddefnyddio fel ffocws ar gyfer y rhain. Fodd bynnag, awgrymodd hefyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar weithgareddau arfordirol o ystyried natur unigryw y Parc yn hynny o beth. Syniad arall a gynigiwyd oedd y gallai plant weithio tuag at grŵp o gredydau drwy gydol eu bywyd academaidd a fyddai'n eu dysgu am wahanol agweddau ar y Parc Cenedlaethol, yn enwedig hybu'r ymdeimlad o le er mwyn cydgysylltu'r cyfan.

Atebodd y Swyddogion bod y rhain yn syniadau diddorol a chytunwyd efallai bod angen cymryd agwedd fwy strategol a chydlynus a bod mwy o ffocws y cael ei roi ar yr hyn a oedd yn nodedig am y Parc Cenedlaethol a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

NODWYD.



6. **Gwaith Partneriaeth o ran Rheoli Hamdden, gyda ffocws ar waith yng Nghastellmartin**

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Parcmyn fod Partneriaeth Parcmyn Castellmartin yn cael ei rheoli gan yr Awdurdod ac yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Stiwardiaeth Cadwraeth y Weinyddiaeth Amddiffyn a Phartneriaeth Gweithio ar y Cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru. Roedd ei adroddiad yn amlinellu cefndir y bartneriaeth, y trefniadau cyllido presennol a'r canlyniadau a'r mesurau a roddwyd ar waith i gwrdd â'r nod bod y meysydd tanio milwrol yn Sir Benfro yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n integreiddio eu swyddogaeth filwrol â'u gwerth uchel o ran tirwedd a hamdden ac yn gwarchod eu nodweddion cadwraeth pwysig. Cafodd y rhain eu hasesu drwy weithio gyda rhanddeiliaid, rhaglen o fonitro cadwraeth ac adolygu'r Cynllun Rheoli Tir Integredig.

Aeth Parcmon Castellmartin ymlaen i dynnu sylw at rai o lwyddiannau arwyddocaol y bartneriaeth ers creu ei rôl yn 2003. Roedd y rhain yn cynnwys creu Llwybr Maes Tanio Castellmartin, teithiau tywys maes tanio Maenorbŷr, gweithio gyda dringwyr ac ogofawyr, glanhau traethau a gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn.

Llongyfarchodd yr Aelodau'r swyddogion ar yr adroddiad a'r cyflwyniad a soniwyd am ymweliad ardderchog â'r maes tanio y llynedd. Holwyd am y berthynas barhaus â syrffwyr a chaiacwyr môr a drafodwyd ar yr ymweliad hwnnw. Atebodd y Parcmon ei bod yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i wella'r arwyddion ar y ffiniau ac roedd yr achubwyr bywyd ar y traethau yn helpu i hyrwyddo'r neges. Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i ymweld â'r maes tanio eto yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ar waith partneriaeth yng Nghastellmartin a threfnu ymweliad â'r maes tanio.

7. **Adroddiad Rheoli Tir Cadwraeth s2015-16**

Roedd adroddiad y Swyddog Bioamrywiaeth yn nodi pa ganlyniadau a oedd yn cael eu cyflawni ar gyfer y Parc Cenedlaethol drwy ei waith rheoli tir cadwraeth. Roedd gwaith cadwraeth yn cael ei wneud ar dros gant o safleoedd, cyfanswm o tua 4178 hectar, gyda'r nod o fod o fudd i gynefinoedd a rhywogaethau sy'n flaenoriaeth. Roedd yn cael ei gyflawni drwy reoli ystadau sy'n eiddo i'r Awdurdod neu a brydlesir ganddo a hefyd drwy weithio mewn partneriaeth gyda thirfeddianwyr preifat drwy'r cynllun 'Gwarchod y Parc'. Yn ychwanegol, mae staff yn cymryd rhan mewn prosiectau penodol, naill ai drwy ddarpariaeth uniongyrchol neu fel rhan o bartneriaeth; mae'r enghreifftiau yn cynnwys y Rhwydwaith Pori Sir Benfro, Partneriaeth Diogelwch Tân Sir Benfro, a rheoli'r rhywogaethau anffrodorol trwy'r prosiect 'Pwyth yn ei Bryd'. Roedd y gwaith yn cael ei wneud gan adran Cyfeiriad y Parc, a'r timau Wardeiniaid a Pharcmyn, gyda chymorth gwirfoddolwyr.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am yr adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth am nifer o brosiectau ardderchog ac yn dangos sut yr oeddynt yn asio gyda gwaith yr Awdurdod yn gyffredinol. Gofynnwyd a oedd capasiti i ddatblygu rôl y gwirfoddolwyr, ac atebodd y swyddog mai bach iawn o gapasiti a oedd ar gael oherwydd yr amser sydd ei angen i reoli gwirfoddolwyr. Roedd hyn yn cael ei wneud yn bennaf ar hyn o bryd drwy'r Gwasanaeth Parcmyn a



oedd yn rheoli Wardeiniaid Gwirfoddol yr Awdurdod. Gofynnwyd hefyd a oedd yn broses hir i safleoedd i ymuno â'r cynllun Cadwraeth y Parc a nodwyd ei bod yn broses hawdd er nad oedd y cynllun yn cael ei hysbysebu'n eang oherwydd capasiti cyfyngedig. Fel arfer swyddogion neu Gyfoeth Naturiol Cymru a fyddai'n tynnu sylw at safleoedd.

NODWYD.

8. Y Gofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arweinyddiaeth yr Awdurdod. Roedd cynnydd diweddar a newidiadau wedi'u nodi. Nid oedd unrhyw risgiau newydd wedi cael eu hychwanegu ac ni chafodd yr un risg ei ddileu.

Yn ystod eu harchwiliad mewnol yn ddiweddar, dywedodd Gateway Assure eu bod yn teimlo, o ystyried y polisiau a'r gweithdrefnau a fyddai ar waith yn fuan, y dylai'r risg o fethiant TG mawr neu ymosodiad gan firws gael ei diwygio i lefel is, a mwy priodol. Yn unol â hynny ac yn dilyn trafodaeth, roedd y gofrestr risgiau wedi'i diwygio. Nid oedd unrhyw risgiau eraill wedi cael eu diwygio na'u dileu.

Credai'r Aelodau fod y ddadl dros leihau lefel y risg yn ymddangos yn rhesymol oherwydd y strategaethau a oedd ar waith ac roeddynt yn cefnogi'r newid yn lefel y risg ar gyfer methiant TG mawr neu ymosodiad gan firws.

PENDERFYNWYD bod y gofrestr risg yn cael ei diwygio er mwyn gostwng y faner ar gyfer risg 20 Methiant TG Mawr neu ymosodiad gan firws o goch i oren.

9. Y Grŵp Datblygiad Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus eu hystyried.

